Annwyl Bawb

E-FWLETIN 26: 8 MEHEFIN 2009

Nodir isod y digwyddiadau sy'n cymryd lle yn y Morlan dros yr wythnosau nesaf.

ARDDANGOSFA O FFOTOGRAFFAU: HANES MENYWOD CYMRU
10.00-4.00, Llun i Gwener, hyd at 15 Mehefin
Eich cyfle olaf i weld arddangosfa o rai o'r eitemau amrywiol ddaeth i law yn ystod y Sioe ar Daith am hanes menywod Cymru a gynhaliwyd gan Archif Menywod Cymru yn yr hydref.

ANERCHIAD GAN ALICE BRIGGS O HAUL (CELFYDDYD MEWN IECHYD)
2.30, dydd Iau, 18 Mehefin
Cyfarfod misol nesaf Prifysgol y Drydedd Oes ar gyfer y rheiny sydd wedi rhoi'r gorau i weithio.

SESIYNAU GALW I MEWN AR GYFER DARPAR WIRFODDOLWYR
10.00-4.00, dydd Mawrth, 16 Mehefin a dydd Mawrth, 30 Mehefin
CAVO sy'n trefnu'r sesiynau hyn ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli neu fudiadau sy'n defnyddio gwirfoddolwyr ac angen help recriwtio gwirfoddolwyr. Byddant yn cael eu cynnal yma ddwywaith y mis tan ddiwedd y flwyddyn.

ARDDANGOSFA CEFYN BURGESS
Diwedd Mehefin i ddiwedd Gorffennaf (union ddyddiadau i'w cadarnhau)
Y mae Cefyn Burgess wedi creu darnau newydd o waith wedi'u seilio ar gapeli'r ardal yn arbennig ar gyfer yr arddangosfa hon. Yn ystod Gorffennaf, bydd hefyd yn cynnal noson i drafod ei waith a dylanwad y capel arno fel arlunydd (dyddiad i'w gadarnhau).

CHASING RAINBOWS **(Theatr Hijinx)**
7.30, nos Fercher, 1 Gorffennaf
Drama newydd gan Glenys Evans am gael eich derbyn a'ch cynnwys o fewn cymdeithas. Mae'n ddrama ar gyfer pobl ag anawsterau dysgu a'u cymuned. Gadawodd ddrama ddiwethaf Glenys Evans argraff fawr ar bawb a'i gwelodd felly peidiwch â cholli'r cyfle i weld hon. Tocynnau: £6 (gost: £4) ac ar gael nawr o'r Morlan.

Tynnir eich sylw hefyd at *Wasanaeth o Bryder ynglŷn â'r Fasnach Arfau* sy'n cael ei gynnal am 3.30 ar brynhawn Sul, 14 Mehefin yn Eglwys yr Holl Saint, Sgwâr Fictoria, Penarth. Mae'r gwasanaeth blynyddol hwn yn gyfle i weddïo am ras i ddatrys gwrthdaro trwy ddulliau heddychlon ac i weithio i leihau cynhyrchu a gwerthu arfau. Trefnir y gwasanaeth gan Rwydwaith Cristnogol Penarth o'r Ymgyrch yn erbyn y Fasnach Arfau (am wybodaeth bellach, cysyllter ag Alison Norris: 029-2021-4555).

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr